# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

**RHAN 6**

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL: ADDASRWYDD I YMARFER

**PENNOD 4**

GORCHMYNION INTERIM AC ADOLYGU GORCHMYNION INTERIM

**144 Gorchmynion interim**

(1) Caiff panel mewn achos gorchymyn interim wneud gorchymyn interim mewn perthynas â pherson cofrestredig.

(2) Caiff panel gorchmynion interim wneud gorchymyn interim pa un a yw'r mater wedi ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer ai peidio.

(3) Pan fo mater wedi ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer, rhaid i unrhyw orchymyn interim gael ei wneud cyn i'r panel addasrwydd i ymarfer waredu'r mater yn unol ag unrhyw un neu ragor o adrannau 135 i 138.

(4) Y ddau fath o orchymyn interim yw—

(a) gorchymyn atal dros dro interim, sef gorchymyn sy'n atal cofrestriad y person cofrestredig dros dro;

(b) gorchymyn cofrestru amodol interim, sef gorchymyn sy'n gosod amodau ar gofrestriad y person cofrestredig.

(5) Ni chaiff panel wneud gorchymyn interim ond os yw wedi ei fodloni bod y gorchymyn—

(a) yn angenrheidiol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd,

(b) fel arall er budd y cyhoedd, neu

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(c) er budd y person cofrestredig.

(6) O ran gorchymyn interim—

(a) mae’n cymryd effaith ar unwaith, a

(b) ni chaniateir iddo gael effaith am gyfnod sy’n hwy na 18 mis (oni bai ei fod yn cael ei estyn; gweler adran 148 (estyn gorchymyn interim gan y tribiwnlys)).

(7) Pan fo gorchymyn interim yn cael ei wneud mewn cysylltiad â pherson cofrestredig, rhaid i GCC roi hysbysiad i’r person—

(a) o’r penderfyniad,

(b) o’r rhesymau dros y penderfyniad, ac

(c) o’r hawl i apelio o dan adran 145 yn erbyn y penderfyniad.